

# Athrawon ysgol

## Arolwg Cenedlaethol Gweithlu Addysg 2021

### Dadansoddiad o sylwadau testun agored



Llywodraeth Cymru  
Welsh Government

## 1. Baich gwaith

**Themâu cyffredinol o'r cwestiwn testun agored awgrymiadau i wneud gwaith yn fwy hylaw.**

- Llai o weinyddu/gwaith papur/cyfarfodydd;
- Darparu amser ychwanegol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA);
- Newid i oriau addysgu;
- Llai o farcio;
- Recriwtio i ddelio â baich gwaith;
- Lleihau maint dosbarthiadau;
- Adnoddau ar gael yn rhwydd.

**Cyfanswm yr ymatebion: 3,346**

**Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 1,471**

Mewn ymateb i:

*4. I ba raddau ydych chi'n cytuno neu'n anghytuno eich bod yn gallu rheoli eich baich gwaith presennol yn effeithiol o fewn eich oriau gwaith dan gontract? (dewiswch un) (pan ddewiswyd naill ai anghytuno neu anghytuno'n gryf, gofynnwyd y cwestiwn testun agored "A oes gennych awgrymiadau ymarferol ynghylch newidiadau a fyddai'n helpu i wneud eich baich gwaith yn fwy hylaw?"*

**Dadansoddiad o sylwadau ynghylch sut y gallai baich gwaith fod yn fwy hylaw:**

### 1.1. Llai o weinyddu/gwaith papur/cyfarfodydd (522 o sylwadau)

- Teimlai athrawon ysgol fod y gweinyddu/gwaith papur y mae'n ofynnol ei gwblhau yn cymryd llawer o amser;
- Teimlai rhai nad oes angen rhywfaint o'r gwaith gweinyddol/gwaith papur a gwblheir.

### Enghreifftiau

*Llai o waith papur a gwaith gweinyddol. Gall nifer yr e-byst y mae angen i mi ymateb iddynt bob dydd fod yn llethol, mae rhai o'r rhain yn cael eu hanfon gan reolwyr a chydweithwyr yn ystod penwythnosau, gyda'r nos, yn hwyr yn y nos ac yn ystod gwyliau.*

*Dylid osgoi tasgau gweinyddol sydd wedi'u cynllunio i gadw llygad arnoch e.e. cwblhau taenlenni i nodi pa rieni y cysylltwyd â hwy ac ati.*

*Mae angen gohirio tasgau gweinyddol nad ydynt yn hanfodol, fel tasgau monitro neu werthuso, nes bod athrawon a disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol.*

*Dileu'r tasgau gweinyddol gormodola diangen nad ydynt yn ychwanegu at ansawdd yr addysgu a'r dysgu.*

*Maint pur y gwaith papur a data dibwrpas i gyfiawnhau'r hyn a wnawn yn hytrach na dibynnu arnom yn broffesiynol; pe bai hyn yn gostwng yna byddai hynny'n gwneud gwahaniaeth.*

## **1.2. Darparu amser ychwanegol ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu (CPA) (339 o sylwadau)**

- Roedd thema o'r sylwadau nad oedd yr amser CPA presennol yn addas i'r diben;
- Am fod cymaint o CPA yn ofynnol, teimlai athrawon ysgol y dylid darparu mwy o amser CPA;
- Codwyd sylwadau hefyd yn awgrymu bod angen mwy o amser CPA ar rai pynciau.

### Enghreifftiau

*Mae angen mwy o amser CPA arnaf. Nid yw 5 awr y pythefnos yn hanner digon. Mae angen o leiaf 20% i ffwrdd o'r amserlen ar athrawon i gynllunio, paratoi ac asesu. Mae'n rhaid i mi weithio bob nos ac ar y penwythnos (ar draul fy amser a'm lles fy hun) i ymdopi â maint y gwaith sydd gennyf.*

*Cydnabod bod rhai pynciau'n llawer mwy i'w hasesu fel Saesneg, a sicrhau yr adlewyrchir hyn ym maint yr amser CPA a roddir ar gyfer asesu ffurfiannol.*

*Nid yw'r amser sydd ar gael ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn agos at yr amser sydd ei angen i addysgu, monitro ac asesu i'r lefel a ddisgwylir. Mae angen cynyddu amser CPA ar frys.*

*Cael mwy o wersi paratoi/amser digyswllt yn y gwaith.*

*Mae angen mwy o amser yn ystod y diwrnod gwaith i baratoi adnoddau a gwersi ar gyfer dysgu ar-lein i bob myfyriwr yn effeithiol. Mae'r amser a gawn yn llyncu llawer iawn o'n hamser personol gyda'n teuluoedd gartref, wedi'i dreulio'n gweithio.*

## **1.3. Newid i oriau addysgu (225 o sylwadau)**

- Thema ac awgrym cyffredin oedd newid nifer yr oriau addysgu;
- Yn unol â 2, teimlai nifer sylweddol o athrawon ysgol y dylid gostwng yr amser addysgu er mwyn cael amser CPA ychwanegol (cynllunio, paratoi, asesu);
- Yn ogystal, gallai newid i oriau addysgu alluogi athrawon ysgol i gyflawni tasgau angenrheidiol eraill.

### Enghreifftiau

*Lleihau'r oriau addysgu fel ei bod yn bosibl cwblhau mwy o waith paratoi adnoddau, cynllunio a marcio i'r diwrnod ysgol.*

*Lleihau oriau addysgu i alluogi cynllunio addysgu, myfyrio a chyfathrebu effeithiol â chydweithwyr sydd i gyd o fudd i addysgu.*

*Lleihau oriau addysgu cyswllt. Mae'n amhosibl cynllunio, paratoi a marcio ar gyfer yr holl ddisgyblion a dosbarthiadau yn y 3 awr o CPA a roddir i mi.*

*Lleihau'r oriau addysgu i alluogi mwy o amser digyswllt neu leihau'r cyfrifoldeb am feysydd eraill er mwyn caniatáu mwy o amser i gwblhau tasgau mewn oriau gwaith*

## **1.4. Llai o farcio (213 o sylwadau)**

- Ymddengys bod marcio hefyd yn dasg lafurus arall; gyda lefel y manylion sydd eu hangen, teimlai llawer na ellid cwblhau marcio i'r safon ofynnol yn yr amser dynodedig presennol a roddir, felly mae'n rhaid i lawer o athrawon ysgol ddod o hyd i amser ychwanegol i gwblhau'r dasg hon;
- Ymhlith yr awgrymiadau gan athrawon ysgol oedd symud tuag at fwy o adborth llafar, neu lai o ddisgwyliad gan farcio.

### Enghreifftiau

*Byddai llai o farcio gwaith yn ffurfiol yn helpu, mae adborth llafar yn llawer gwell am gefnogi'r dysgwr.*

*Mae'r disgwyliad cyson ar gyfer marcio asesiadau i ddarparu data ar gynnydd disgyblion yn ei gwneud yn amhosibl cael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith.*

*Newidiadau i bolisi marcio: caniatáu adborth dosbarth cyfan neu adborth cymysgu a chyfateb. Mwy o bwyslais ar fyfyrwyr yn myfyrio ar waith. Mae llawer o ysgrifennu diangen gan athrawon.*

*Polisi adborth yn hytrach na pholisi marcio lle mae adborth llafar yn cael blaenoriaeth. Y broblem ar hyn o bryd yw bod y rhan fwyaf o'n hamser (y tu allan i'r ystafell ddosbarth) yn cael ei dreulio'n marcio. Mae hyn yn lleihau'r amser a'r egni i greu gwersi i ennyn diddordeb y plant. Dyna lle dylai'r pwyslais fod os ydym am greu chwilfrydedd a chariad at ddysgu. Y perygl yw bod athrawon blinedig yn troi at greu gwersi diflas fformiwläig nad ydynt yn ennyn diddordeb y disgyblion ac a all wedyn greu problemau rheoli yn yr ystafell ddosbarth.*

#### **1.5. Recriwtio i ddelio â baich gwaith (137 o sylwadau)**

- Gallai recriwtio (neu gymorth ychwanegol) cynorthwywyr addysgu/athrawon ysgol ychwanegol hefyd helpu i wneud y baich gwaith yn fwy hylaw, yn ôl athrawon ysgol. Teimlir y gallai staff ychwanegol ymgymryd â rhywfaint o'r gwaith presennol i wneud y baich gwaith yn fwy hylaw.

#### Enghreifftiau

*Recriwtio gweinyddwyr i ddelio â chyswllt cartref heb ymrwymiad yn hytrach nag athrawon dosbarth.*

*Recriwtio mwy o athrawon ledled y wlad.... Recriwtio mwy o gynorthwywyr addysgu neu athrawon/tiworiaid eraill i'm helpu i ddarparu fy ngwersi yn fy ysgol, fel nad fi yw'r unig un sy'n eu darparu.*

*Cyflogi mwy o athrawon i roi amser i'r rhai sydd â Chyfrifoldebau Addysgu a Dysgu wneud y tasgau ychwanegol heb leihau amser ar gyfer cynllunio.*

*Mwy o arian i ysgoli gyflogi mwy o athrawon fel bod athrawon yn cael mwy o amser yn ystod y diwrnod ysgol i gwblhau'r tasgau hyn.*

#### **1.6. Lleihau maint dosbarthiadau (86 o sylwadau)**

- Awgrym pellach a roddwyd gan athrawon ysgol i fynd i'r afael â baich gwaith yw lleihau maint dosbarthiadau, gan y bydd dosbarthiadau llai o faint yn cwtogi ar y gwaith marcio a'r gweinyddu.

#### Enghreifftiau

*Dosbarthiadau llai o faint gan ei bod yn anodd rhoi sylw o ansawdd da i 30 o blant.*

*....Lleihau maint dosbarthiadau, lleihau nifer y myfyrwyr, a chynyddu amser CPA rhydd o fewn y diwrnod gwaith.*

*Lleihau dosbarthiadau. Byddai'n llawer mwy hylaw ac arbenigol i bob disgybl pe bai'r dosbarth yn 20 ar y mwyaf o ran maint.*

*Dosbarthiadau llai o faint, mwy hylaw neu leihau amser cyswllt i roi mwy o amser ar gyfer cynllunio, paratoi a marcio.*

#### **1.7. Adnoddau ar gael yn rhwydd (83 o sylwadau)**

- Mae'n debyg bod datblygu'r adnoddau gofynnol hefyd yn straen ar lwyth gwaith;

- Gwnaed awgrymiadau, fel bod athrawon ysgol yn gallu cael gafael ar adnoddau cymeradwy yn ganolog i'w defnyddio;
- At hynny, cafwyd rhai ceisiadau gan athrawon ysgol i sicrhau bod adnoddau ar gael yn Gymraeg gan fod angen amser i gyfieithu.

### Enghreifftiau

*Cael mwy o adnoddau ar gyfer dysgu pwnc ymarferol o bell, fel cerddoriaeth, ar gael yn Saesneg ac yn Gymraeg.*

*Traws-ddatblygu ystod o adnoddau o fewn clystyrau ysgolion sy'n cyd-fynd â'r briff gyda'r Cwricwlwm Cymreig yn cefnogi ei gilydd gyda'r angen i ddatblygu a defnyddio pynciau diddorol a heriol yn hawdd ym mhob maes pwnc. Mae cymorth arweinydd pwnc amser llawn sy'n gyrru'r prosiect ac yn datblygu adnoddau a chydlynu mewnbwn gan staff yn hanfodol ar gyfer atebolrwydd a datblygu ansawdd yr adnoddau y gellid eu creu i bawb yng Nghymru at ddefnydd athrawon pwnc i leihau'r angen i ymchwilio ac ysgrifennu cynlluniau gwaith o'r newydd a lleihau'r baich gwaith hwn. Dylai'r adnoddau hyn ganiatáu mwy o gyfle i leoleiddio'r cynnwys ac annog cyfranogiad y diwydiant i ddarparu cyd-destun a datrys problemau yn y byd go iawn. Gyda chreadigrwydd y prosiectau/adnoddau hyn y mae angen helpu athrawon, i gefnogi dysgwyr yn llawn a chyflawni'r dibenion craidd.*

*Llyfrgell lle gall ysgolion fenthyg adnoddau o ansawdd uchel sy'n benodol i bynciau, na'u defnyddir efallai bob tymor/blwyddyn gan un ysgol ond y gall llawer o ysgolion eu defnyddio.*

*Dylai Llywodraeth Cymru gasglu ynghyd gronfa o adnoddau enghreifftiol, yn enwedig y rheini yn Gymraeg. Gallai hyn fod fel rhan o'r llywodraeth neu sefydliad cyswllt. Dylai cam nesaf gweithredu'r cwricwlwm newydd gan olbwyntio ar hyn ac adnoddau ar-lein. Treulir y rhan fwyaf o'm hamser yn ymchwilio beth i'w wneud ar gyfer gwersi, sut i'w wneud a pha adnoddau sydd gennyf / pa rai sy'n rhaid imi eu creu.*

**Themâu cyffredinol o'r cwestiwn testun agored pam mae baich gwaith wedi cynyddu oherwydd dysgu cyfunol.**

#### **Rhesymau gwaith ychwanegol**

- Datblygu adnoddau;
- Cysylltu â rhieni/dysgwyr neu ymateb iddynt;
- Asesu a marcio;
- TGCh – dyluniad a dibynadwyedd systemau TG/argaeledd/hyfforddiant;
- Gofynion gweinyddu/gwaith papur/cyfarfodydd;
- Addysgu yn yr ysgol ac ar-lein.

#### **Awgrymiadau ymarferol ar gyfer gwelliannau**

- Adnoddau canolog;
- Hyfforddiant i staff a myfyrwyr ddefnyddio systemau'n effeithiol;
- Technoleg i bawb;
- Dull cenedlaethol o ddysgu cyfunol;
- Newid oriau cyswllt.

**Cyfanswm yr ymatebion: 3,346**

**Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 1,752**

Mewn ymateb i:

*8. Sut mae darparu dysgu cyfunol / o bell yn ystod pandemig COVID-19 wedi effeithio ar eich baich gwaith? Os yw "wedi cynyddu ychydig" neu "wedi cynyddu'n sylweddol", gofynnwyd y cwestiwn testun agored canlynol "Os yw eich baich gwaith wedi cynyddu ychydig neu'n sylweddol, esboniwch beth fu'r gwaith ychwanegol ac unrhyw awgrymiadau ymarferol ynghylch sut y gellid gwella hyn"*

## Dadansoddiad o sylwadau ynghylch pam mae baich gwaith wedi cynyddu:

### 1.8. Datblygu adnoddau (1,196 o sylwadau)

- Bu paratoi adnoddau ar gyfer dysgu cyfunol yn straen ar lwyth gwaith athrawon ysgol. Y rheswm am hyn yw bod yn rhaid i adnoddau fod yn addas i'w defnyddio'n ddigidol. Roedd angen mwy o amser i gynhyrchu'r adnoddau e.e. paratoi fideos, trosleisio, PowerPoint a darparu cyfarwyddiadau;
- Dywedodd rhai athrawon fod datblygu adnoddau wedi ychwanegu at y baich gwaith gan fod yn rhaid eu cyfieithu neu eu haddasu i fyfyrwyr ADY;
- At hynny, roedd yn rhaid i'r adnoddau fod yn gydnaws â'r dyfeisiau a ddefnyddir gan fyfyrwyr, felly roedd yn rhaid trosi adnoddau'n fformatau gwahanol. Yn ogystal, rhaid i adnoddau fod ar gael ar bapur ar gyfer y rhai nad oes ganddynt fynediad at TG neu'r rhai sy'n cael eu haddysgu wyneb yn wyneb;
- Ar gyfer pynciau mwy ymarferol roedd yn rhaid datblygu mwy o adnoddau na fyddai eu hangen fel arfer y tu allan i bandemig COVID-19.

### Enghreifftiau

*Mae'n cymryd amser i addasu ein hadnoddau addysgu presennol yn fersiynau ystyrlon sy'n ychwanegu gwerth at sesiynau dysgu o bell ac sy'n caniatáu i ddisgyblion ddangos eu dealltwriaeth a'u cynnydd.*

*Mae cyflenwi pwnc ymarferol fel cemeg o bell yn wahanoliawn i wneud hynny yn yr ystafell ddosbarth, ac mae'r cynllunio ymlaen llaw wedi cynyddu gan na ellir cyflwyno'r gwersi arferol ar-lein.*

*Mae paratoi ar gyfer pob un wers yn golygu diwygio/addasu pob un adnodd a ddefnyddiaf yn yr ystafell ddosbarth. Ni ellir ailddefnyddio unrhyw beth yn uniongyrchol. Mae recordio gwrs ymlaen llaw yn cymryd amser ychwanegol eto, gyda'r baich gwaith ychwanegol fod mwy o waith yn cael ei gyflwyno ar y diwedd i'w farcio. Felly, ar gyfartaledd, rwy'n cynllunio ac yn marcio am awr a hanner ar gyfer pob gwrs awr yr wyf yn ei haddysgu.*

*Gyda llawer o adnoddau sydd ar gael yn rhwydd, nid ydynt ar gael yn Gymraeg felly mae angen eu cyfieithu. Nid yw llawer o rieni'n gallu deall Cymraeg felly mae angen cyfieithu hyd yn oed yr adnoddau Cymraeg i'r Saesneg. Gorfod sicrhau bod y rhieni hefyd yn deall y gwaith (nid y plant yn unig).*

### 1.9. Cysylltu â rhieni a dysgwyr neu ymateb iddynt (601 o sylwadau)

- Teimlai athrawon ysgol fod cryn dipyn o amser yn cael ei dreulio yn ymateb i ymholiadau gan rieni neu ddysgwyr;
- Cyflwynai rhieni ymholiadau ar ôl eu diwrnod gwaith eu hunain, felly nid oedd yn anghyffredin i ymholiadau gael eu hanfon y tu allan i oriau addysgu arferol, a'r ysgol yn teimlo bod yn rhaid iddi ymateb iddynt cyn gynted â phosibl;
- Byddai dysgwyr hefyd yn tueddu i gyflwyno ymholiadau drwy gydol y dydd, gan gynnwys gyda'r nos ac ar benwythnosau;
- Byddai athrawon yn cysylltu â dysgwyr a rhieni yn rhan o archwiliadau lles ac annog ymgysylltu/presenoldeb.

### Enghreifftiau

*Amser cyswllt 24/7 gyda myfyrwyr, rhieni a'r ysgol. Ble ddaw i ben? Mae mynd yn ddigidol yn golygu bod myfyrwyr, rhieni ac weithiau'r ysgol yn disgwyl ymatebion ar unwaith. Sut gallwn ni addysgu a bod yn ysgrifennydd inni'n hunain hefyd?*

*Mae angen mwy o arweiniad ar fyfyrwyr yn unigol, gofynnir ni gysylltu â rhieni unwaith yr wythnos ond heb unrhyw amser ychwanegol i wneud hyn.*

*Mae rhieni a disgyblion yn e-bostio'n rheolaidd y tu allan i oriau gwaith ac yn disgwyl ymatebion ar unwaith.*

#### **1.10. Asesu a marcio (471 o sylwadau)**

- Un thema arall a nodwyd oedd bod marcio gwaith yn ddigidol yn cymryd mwy o amser a bod swmp y gwaith i'w farcio wedi cynyddu;
- Ni ellid marcio yn y dosbarth na rhoi adborth llafar mewn amgylchedd dysgu cyfunol mwyach;
- Roedd angen marcio hefyd ar unwaith.

#### Enghreifftiau

*Yr angen parhaus am adborth - yn y dosbarth byddai hyn ar lafar yn bennaf ond mae angen ei ysgrifennu neu ei gofnodio bell. Yna aros i'r gwaith gael ei ailgyflwyno cyn gwneud sylwadau eto. Disgyblion yn cyflwyno gwaith drwy gydol y dydd, a gorfod newid o'r naill dasg i'r llall wrth farcio.*

*Mae marcio'n ddigidol yn cymryd llawer iawn o amser, mae hefyd yn anodd rhoi adborth manwl ac effeithiol.*

*Darparu tair tasg (un mathemateg, un llythrennedd ac un thema) bob dydd i 33 o ddisgyblion a marcio pob darn o waith erbyn y dydd Llun canlynol = dyna gyfanswm o 495 darn o waith i'w marcio mewn wythnos. O dan amgylchiadau arferol, dim ond tua 120 darn o waith yr wythnos y byddwn yn eu marcio.*

#### **1.11. TGCh Dyluniad a dibynadwyedd systemau TG/argaeledd/hyfforddiant (413 o sylwadau)**

- Teimlai rhai athrawon ysgol na roddwyd yr hyfforddiant priodol er mwyn eu paratoi ar gyfer dysgu digidol. O ganlyniad, treuliyd cryn dipyn o amser yn ceisio nodi'r dulliau/rhaglenni gorau ar gyfer dysgu digidol a sut i wneud defnydd llawn o bob un (190 o sylwadau);
- Dywedwyd hefyd gan athrawon ysgol fod baich gwaith wedi cynyddu oherwydd problemau gyda thechnoleg. Roedd hyn yn amrywio o broblemau gyda Wi-Fi, staff neu ddysgwyr heb y dechnoleg briodol ac ymdrin ag ymholiadau gan rieni a dysgwyr pan oeddent yn cael problemau TG (153 o sylwadau);
- Roedd hefyd yn waith llafurus llwytho adnoddau i fyny, yn enwedig os oedd yn rhaid uwchlwytho gwaith i lwyfannau lluosog (70 o sylwadau).

#### Enghreifftiau

*Dysgu sut i ddefnyddio technoleg newydd, addysgu eraill sut i'w defnyddio, addysgu rhieni a phlant sut i'w defnyddio, cyflwyno sesiynau ar-lein yn ogystal â dysgu o bell a bod ar gael i oruchwylio yn yr Hwb, i gyd wrth ofalu am eich plant eich hun a'u cefnogi.*

*Baich gwaith ychwanegol wrth greu adnoddau ar-lein a chynllunio gweithgareddau ar-lein. Llyncwyd llawer o amser yn ymchwilio ac asesu gwahanol offer ar-lein gan fod yn rhaid rhoi llawer o ystyriaeth i'r hyn a oedd ar gael i ddisgyblion a'u gallu i gael at y cynnwys.*

*Fel athrawon, ni chawsom unrhyw hyfforddiant o gwbl i'r llwyfannau dysgu o bell fel Google Classroom, Teams, HWB. Fe'n gadawyd i 'fwrw ymlaen ag ef' heb unrhyw gymorth/hyfforddiant o gwbl gan Lywodraeth Leol. Buom yn dysgu oddi wrth ein gilydd fel staff, a hynny'n ymdrech llafurus enfawr. Nid wyf o hyd wedi llawn werthfawrogi potensial llawn platfform HWB a'i gymwysadau lawer. Nid oes gennyf amser*

*rhydd i ymgysylltu â defnyddio pob cymhwysiad ar HWB. Byddwn yn gwerthfawrogi pe gallai Llywodraeth Cymru fuddsoddi peth amser ac arian i dynnu staff allan o'u diwrnod gwaith a'u hanfon ar ddeuddydd o gwrs hyfforddi i ddatblygu ymhellach yr hyn yr ydym eisoes wedi'i ddysgu.*

*Rydym wedi gorfod addasu i ffordd gwbl newydd o ddysgu bron dros nos. Roedd yn rhaid i mi chwilio am fy ffordd fy hun o hyfforddi ar sut i ddefnyddio llwyfannau ar-lein, am gost bersonol. Mae disgwyl i ni fod yn arbenigwyr ar ddarparu dysgu cyfunol a dysgu ar-lein o ansawdd uchel, pan nad yw'r rhai sydd wedi mynnu hynny'n ei ddeall eu hunain.*

*Baich gwaith ychwanegol wrth greu adnoddau ar-lein a chynllunio gweithgareddau ar-lein. Llyncwyd llawer o amser yn ymchwilio ac asesu gwahanol offer ar-lein gan fod yn rhaid rhoi llawer o ystyriaeth i'r hyn a oedd ar gael i ddisgyblion a'u gallu i gael at y cynnwys.*

*Dod i ddeall y TG y tu ôl i ddarparu dysgu o bell effeithiol - nid yw'r dechnoleg yno ac nid yw'r cymorth yno ychwaith - dylai hyn fod wedi'i benderfynu a'i weithredu i bob ysgol ei ddilyn.*

*Dysgu llywio a defnyddio (a pharatoi adnoddau ar) ystod eang o wahanol llwyfannau/apiau. Rwy'n teimlo y byddai'n well defnyddio 2/3 yn effeithiol na disgwyl bod yr holl wahanol rai'n cael eu defnyddio – gwaith llafurus iawn o ran hyfforddiant/cyfarfodydd staff a hefyd er mwyn dysgu defnyddio a chreu adnoddau.*

### **1.12. Gofynion gweinyddu a/neu waith papur/cyfarfodydd (193 o sylwadau)**

- Cynyddodd e-byst i athrawon ysgol gan arwain at lwyth gwaith cynyddol. Byddai e-byst yn cael eu hanfon gan staff a myfyrwyr yn hytrach na chyfathrebu wyneb yn wyneb, sef y dull arferol o gyfathrebu yn yr ysgol;
- Roedd yn rhaid cwblhau gwaith papur ar gyfer monitro ymgysylltiad a dogfennu gwersi at ddibenion tystiolaeth. Gofynnwyd i athrawon ysgol gynhyrchu mwy o ddata ynghylch pa fyfyrwyr oedd yn cymryd rhan;
- Achosodd cyfarfodydd staff gynnydd yn y baich gwaith hefyd.

### **Enghreifftiau**

*Llawer mwy o dasgau ysgrifenedig wedi'u cyflwyno i'w marcio, ymateb i fwy o rieni yn unigol ar sut y gall eu plentyn ddal i fyny am eu bod wedi colli dysgu (heb esboniad), adrodd yn fanylach ac yn amlach i rieni (e.e. mae meini prawf newydd am ddysgu ar-lein wrth adrodd wedi'u cynnwys ond mae'n rhaid i ni gynnwys y meini prawf presennol o hyd sydd ar hyn o bryd yn amherthnasol), negeseuon e-bost gan rieni yn gofyn pa dasgau y mae angen i'w plant eu gwneud gan nad ydynt yn credu bod eu plentyn wedi gwneud dim, negeseuon gan lawer o blant unigol yn gofyn cwestiynau diangen sydd eisoes wedi'u cynnwys yn y cyfarwyddiadau gwreiddiol beth bynnag. Mae angen i mi hefyd wneud galwadau ffôn gwirio Lles ar gyfer unrhyw blant sy'n agored i niwed neu sy'n agored iawn i niwed. Hefyd, disgwylir wedyn i ni fod yn 'fyw' ac mewn cysylltiad â phlant a rhieni rhwng 8:30 a 4pm - felly mae'n anodd gwneud unrhyw waith cynllunio a pharatoi gyda llif cyswllt parhaus drwy gydol y dydd.*

*Gorfod ymateb i nifer enfawr o negeseuon ac e-byst gan staff, disgyblion a rhieni bob dydd drwy'r dydd. Nid yw hyn yn digwydd dan amgylchiadau arferol heb Covid.*

*Yn ogystal, bu pwysau enfawr ar athrawon i gefnogi lles disgyblion ac ati ond mae pobl yn anghofio mai athrawon yw athrawon; nid therapyddion, cefnogwyr gofal bugeiliol, gweithwyr cymdeithasol ac ati. Ychydig iawn o hyfforddiant sydd gennym yn y maes hwn ond rydym wedi cael llawer o atebolrwydd arnom heb fawr o gymorth na hyfforddiant. Ni fu o gymorth ychwaith fod awdurdodau lleol wedi bod yn monitro data 'ymgysylltu disgyblion' ar-lein. Mae hyn yn rhoi mwy o straen ar athrawon i berfformio.*

*Roedd cofnodia monitro presenoldeb mewn gwersi byw yn elfen weinyddol arall a oedd yn ychwanegu at lwyth gwaith a chyfathrebu a chyfrifo gwersi a gollwyd.*

### **1.13. Addysgu yn y dosbarth ac ar-lein (189 o sylwadau)**

- Bu'n rhaid i nifero athrawon ysgol weithio ar-lein a gweithio yn yr ystafell ddosbarth a oedd yn cynyddu baich gwaith;
- Weithiau, byddai angen dyblygu neu addasu gwaith i ddarparu ar gyfer y ddau amgylchedd addysgu;
- Effeithiodd hyn ar reoli a gweinyddu adnoddau.

#### Enghreifftiau

*Cwestiynau cyson gan rieni a phlant gyda 4 cyfarfod byw bob dydd. Ers 1 Mawrth yn addysgu ar-lein a phlant yn yr ystafell ddosbarth. Mae hyn wedi cymryd llawer o amser yn addysgu plant sydd yn yr ystafell ddosbarth ac ar-lein.*

*Pan fyddwn yn yr ysgol yn goruchwyllo disgyblion, mae disgwyl i ni ddarparu gwaith ar gyfer ein holl wersi o hyd, gan ddyblu'r baich gwaith ar gyfer y diwrnod hwnnw i bob pwrpas.*

*Bu'n anodd jyglo darparu dysgu ar-lein wrth addysgu yn hwb yr ysgol ddwywaith yr wythnos o hyd. Disgwylir inni gynllunio gwersi gwahaniaethol ar gyfer dysgu yn y cartref, addysgu gwersi byw, marcio dysgu yn y cartref a rhoi adborth gwerthfawr a chynnwys disgyblion Hwb.*

*O safbwynt ysgolfach, rwyf wedi gorfod goruchwyllo gweithwyr allweddol Hwb a chyflwyno rhaglen addysgu lawn i ddysgwyr gartref. Cwblhau galwadau ac ymweliadau lles, rheoli'r ysgol ac addasu'r ystafelloedd dosbarth, darparu addysgu ar-lein a sicrhau bod plant yn cael eu goruchwyllo yn yr ysgol drwy gydol y cyfnod.*

**Dadansoddiad o sylwadau ynghylch awgrymiadau ymarferol ar sut y gellir gwella baich gwaith:**

### **1.14. Adnoddau canolog (77 o sylwadau)**

- Roedd thema yn codi dro ar ôl tro ar gyfer achosion baich gwaith ychwanegol mewn cysylltiad â chreu adnoddau ar gyfer dysgu digidol. Teimlai athrawon ysgol y gellid arbed amser pe bai cronfa o adnoddau cymeradwy y gellid ei defnyddio.

#### Enghreifftiau

*Byddai cael cronfa o adnoddau dysgu cyfunol cenedlaethol ar gyfer pob cyfnod allweddol yn fuddiol.*

*Yn ogystal â pharatoi o hyd ar gyfer newidiadau i'r cwricwlwm y flwyddyn nesaf (cynlluniau gwaith newydd ac ati), rydym yn gorfod addasu gwersi sydd eisoes wedi'u cynllunio i'w gwneud yn hawdd eu defnyddio ar gyfer gweithio ar-lein. A ellid canoli hyn? A ellid datblygu rhaglen sy'n caniatáu i athrawon uwchlwytho gwersi y mae pob myfyriwr, ledled y wlad yn eu cwblhau? Yna gallai canlyniadau cwisiau ac ati gael eu dadansoddi gan eu hathrawon dosbarth ac yn hytrach na threulio amser yn cynllunio'r gwersi, mae'r athrawon yn treulio amser yn bwydo'n ôl i fyfyrwyr ar ble mae angen iddynt wella. Bron yn gyfuniad o Tassomai, kahoot ac adolygiadau cynnydd.*

*Cronfa o adnoddau a dechreuadau gwersi wedi'i darparu gan Lywodraeth Cymru (nid BBC Bitesize) sy'n cyd-fynd â'r cwricwlwm. Wedi'i storio mewn ffyrdd trefnus. Er enghraifft, grwpiau blwyddyn a phynciau.*

### **1.15. Hyfforddiant i staff a myfyrwyr ddefnyddio systemau'n effeithiol (38 o sylwadau)**



- Mae cryn dipyn o amser yn cael ei dreulio gan athrawon ysgol yn delio â materion TG gan fyfyrwyr. Ymhlith yr awgrymiadau gan athrawon ysgol oedd rhoi'r hyfforddiant priodol i fyfyrwyr ddefnyddio'r systemau gofynnol;
- Teimlai athrawon ysgol fod cyfran fawr o amser yn cael ei threulio'n dysgu yn eu hamser eu hunain pa systemau a rhaglenni oedd orau ar gyfer dysgu digidol a sut y gellir defnyddio pob un yn effeithiol. Byddai hyfforddiant yn y gwahanol raglenni a systemau o fudd i athrawon ysgol.

### Enghreifftiau

*Mae hyfforddiant staff ar lwyfannau technoleg newydd yn hanfodol.*

*Gorfod llywio llwyfannau dysgu o bell fel Google Classroom ac ati heb unrhyw hyfforddiant yn cael ei ddarparu o gwbl. Yr awgrym amlwg ar gyfer gwella fyddai bod yr ysgol yn darparu hyfforddiant.*

*Mae angen hyfforddiant pellach ar ddefnyddio dysgu ar-lein a'r ffordd orau o gefnogi disgyblion yn electronig.*

#### **1.16. Technoleg i bawb (34 o sylwadau)**

- Oherwydd bod athrawon ysgol yn delio â materion technegol, pe bai myfyrwyr yn cael offer y gwyddys eu bod yn gydnaws ag adnoddau (a bod hyfforddiant priodol yn cael ei roi i ddefnyddio'r dyfeisiau), gallai hyn ddileu rhai o'r ymholiadau gweinyddol y mae athrawon ysgol yn eu cael.

### Enghreifftiau

*Y ffordd y gellid gwella hyn yw cael dull gweithredu Cymru gyfan lle byddai Llywodraeth Cymru yn rhoi benthyg dyfeisiau ac yn eu cynnal yn hytrach na'r ysgol.*

*Gellid bod wedi cwblhau'r broses gyfan hon yn fwy llyfn pe bai'r AAL yn arwain dysgu di-bapur bron drwy gynnig dyfais llechen neu Chromebook i ddysgwyr wedi'i theilwra'n benodol i brofiad yr ysgol er mwyn lleihau cost argraffu diangen ac atgynhyrchu adnoddau.*

*Mae angen i LICC fuddsoddi mewn systemau a meddalwedd TG priodol o ansawdd.*

#### **1.17. Dull cenedlaethol o ddysgu cyfunol (22 o sylwadau)**

- Gallai dull cenedlaethol o ddysgu cyfunol alluogi mwy o ganllawiau a disgwyladau;
- Gallai hyn gwmpasu rhai o'r awgrymiadau uchod (e.e. adnoddau canolog a thechnoleg briodol).

### Enghreifftiau

*Gallai dysgu cyfunol ddod yn arfer safonol, gan gynllunio'n benodol ar ei gyfer yn hytrach na'i fod yn fesur adweithiol gyda disgwyladau hurt ynghlwm wrtho. Byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer dysgu cyfunol ynghyd â chanllawiau a disgwyladau o fudd gan fod gan rai ysgolion ac adrannau ddisgwyladau mwy beichus nag eraill.*

*Sicrhau bod meini prawf penodol i bob ysgol eu dilyn e.e. rhaid i bob ysgol ddarparu X o oriau dysgu/addysgu cyfunol y cwricwlwm a rhyngweithio â disgyblion.*

*Er ei fod yn ddigynsail, dylid bod wedi cael un strategaeth gyflwyno genedlaethol a dylid bod wedi cael cronfa genedlaethol o adnoddau i alw arni.*

#### **1.18. Newid i oriau cyswllt (21 o sylwadau)**

- Er mwyn ymdopi â baich gwaith ychwanegol o ddysgu cyfunol, codwyd awgrymiadau i newid oriau cyswllt fel y gellir neilltuo mwy o amser ar gyfer tasgau eraill y mae angen eu cwblhau.

## Enghreifftiau

*Ffyrdd ymlaen: Cynnig amserlen lai o faint i gyflwyno 'gwersi byw' (e.e. yn fyrrach na'r diwrnod ysgol arferol) i ganiatáu amser byr i staffy naill ochr a'r llall i gwblhau gweithgareddau gweinyddol/ cynllunio neu baratoi yn unig.*

*Mae ceisio addysgu yn yr ysgol ac addysgu o bell ar yr un pryd yn ddwyswydd amser llawn. Mae angen mwy o amser digyswllt i baratoi gwersi wyneb yn wyneb a'u haddasu ar gyfer dysgu o bell.*

*Er mwyn gwella, efallai lleihau'r disgwyliad bod yn rhaid i bob gwern adlewyrchu awr o wers ysgol arferol.*

### **1.19. Lleihau neu newid disgwyliadau (16 o sylwadau)**

- Roedd rhai athrawon ysgol o'r farn bod yn rhaid lleihau disgwyliadau tra bod dysgu digidol yn digwydd. Am fod gan athrawon ysgol lwyth gwaith cynyddol o'r gwaith ychwanegol a grëwyd gan ddysgu digidol, dylai'r cyrff perthnasol a'r rhieni fod yn ymwybodol o'r gwaith ychwanegol hwn. Yn unol â hynny, ni ddylai'r disgwyliadau fod mor uchel ag yr oeddent cyn pandemig COVID-19.

## Enghreifftiau

*Lleihau'r hyn y mae rhieni'n ei ddisgwyl gan athrawon - egluro'n glir i rieni beth a ddisgwylir ganddynt a'r hyn na ddisgwylir - canllawiau cenedlaethol ar sut i ymddwyn pan fydd eu plant mewn gwersi ar-lein.*

*Byddai fframwaith cenedlaethol ar gyfer dysgu cyfunol ynghyd â chanllawiau a disgwyliadau o fudd gan fod gan rai ysgolion ac adrannau ddisgwyliaid mwy beichus nag eraill.*

## **2. Dysgu Proffesiynol**

### **Themâu cyffredinol o sylwadau testun agored dysgu proffesiynol**

- y cwricwlwm newydd;
- sgiliau TGCh gan gynnwys dysgu digidol/cyfunol;
- gwybodaeth pwnc a/neu gyfnod;
- anghenion dysgu ychwanegol;
- iechyd meddwl a lles;
- arweinyddiaeth a rheolaeth;
- gwella sgiliau Cymraeg;
- rhwydweithio/cysgodi/rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr.

**Cyfanswm yr ymatebion: 3,346**

**Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 1,715**

Mewn ymateb i:

*16. Ym mha feysydd y byddech yn croesawu datblygiad pellach i'ch helpu i fod yn weithiwr addysg proffesiynol mwy effeithiol? (rhestrwch hyd at dri maes)*

### **Dadansoddiad o sylwadau sy'n ymwneud â'r prif themâu dysgu proffesiynol**

#### **2.1. Y cwricwlwm newydd (536 o sylwadau)**

- O ran datblygiad proffesiynol pellach, roedd y sylwadau mwyaf poblogaidd yn ymwneud â'r cwricwlwm newydd.

- Roedd llawer o'r rhai a oedd wedi cofrestru yn teimlo nad oeddent yn barod a byddent yn croesawu canllawiau pellach gan Lywodraeth Cymru. Argymhellwyd canllawiau pellach hefyd o ran sut byddai'n effeithio ar athrawon ysgol a sut y gellir ei gymhwyso.

### Enghreifftiau

*Mae angen hyfforddiant arnom ar sut i gynllunio ar gyfer, cyflwyno a chreu adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd heblaw cael ein cyfarwyddo i ddarllen y llawlyfr!*

*Canllawiau cliriach ar y Cwricwlwm newydd ar gyfer 2022 gan Lywodraeth Cymru yn hytrach na gadael yr athrawon i'w ddehongli a'i weithredu ar gyfer eu hysgolion.*

*Dealltwriaeth barhaus o'r cwricwlwm newydd a'r amser i'w ymgorfforio fewn cynllunio.*

### **2.2. Sgiliau TGCh gan gynnwys dysgu digidol/cyfunol (354 o sylwadau)**

- Dywedodd ymatebwyr y byddai hyfforddiant TG pellach o fudd.
- Mae'n ymddangos bod hyn yn deillio'n bennaf o ddysgu digidol lle'r oedd rhai a oedd wedi cofrestru'n teimlo eu bod wedi gorfod addasu i systemau/rhaglenni newydd heb gael yr hyfforddiant digonol.
- Roedd llawer o'r ymatebwyr yn teimlo bod yn rhaid iddynt ddysgu sut i ddefnyddio'r systemau/rhaglenni hyn ar eu liwt eu hunain.

### Enghreifftiau

*Mwy o ddysgu ar ddefnyddio technolegau gyda dysgu cyfunol/o bell.*

*Technoleg. Mae cymaint yr wyf wedi gorfod "dod i'w ddeall" drosofffy hun.*

*Byddwn wedi elwa ar ddulliau dysgu cyfunol pellach oherwydd bu'n rhaid imi ddysgu yn y swydd.*

### **2.3. Gwybodaeth pwnc a/neu gyfnod (224 o sylwadau)**

- Un awgrym cyffredin oedd dysgu proffesiynol yn arbenigedd pwnc yr athro ysgol.

### Enghreifftiau

*Mwy o gyllideb ar gyfer DPP ystyrion. Mae gan DPP mewnol ei le ond nid yw'n ddigonol o bell ffordd. Gall fod yn rhy gyffredinol, heb fod yn ddigon penodol i bwnc.*

*Dysgu proffesiynol sy'n gysylltiedig yn benodol â'm meysydd pwnc.*

*Hoffwn fynychu mwy o'r cyrsiau pwnc-benodol, yn enwedig pan fydd manylebau wedi newid, ond daw'r rhain am gost.*

### **2.4. Anghenion dysgu ychwanegol (166 o sylwadau)**

- Roedd nifer o sylwadau yn dweud bod angen hyfforddiant ADY ynglŷn â'r diwygiadau.

### Enghreifftiau

*Hefyd, hoffwn gael hyfforddiant mwy penodol ar addysgu myfyrwyr ar y sbectrwm awtistig a phlant â dyslecsia.*

*Mwy o hyfforddiant a syniadau ymarferol i roi'r gefnogaeth orau i ddisgyblion ag anghenion heriol a chymhleth.*

ADY - mae'r bil newydd yn gwthio popeth ar ysgolion ac athrawon dosbarth sydd heb y cyfarpar na'r hyfforddiant.

### **2.5. Iechyd meddwl/lles (158 o sylwadau)**

- Thema arall oedd hyfforddiant iechyd meddwl a lles. Cydnabu athrawon ysgol fod mwy o faterion iechyd meddwl/lles gyda myfyrwyr a byddai hyfforddiant ychwanegol yn y maes hwn yn cael ei groesawu i gefnogi myfyrwyr;
- Rhannwyd rhai pryderon yn nodi y gallai achosion iechyd meddwl gynyddu ar ôl i ddysgwyr ddychwelyd i'r ysgol.

#### Enghreifftiau

*Bugeiliol - i helpu i gefnogi lles meddyliol disgyblion yn ystod y cyfnod hwn.*

*Cyngor a hyfforddiant ar nodi a delio â materion iechyd meddwl ymhlith fy myfyrwyr.*

*Rwy'n pryderu'n fawr am iechyd meddwl a lles y dysgwyr sy'n dychwelyd i'r ysgol. Rwy'n credu y dylai pob athro gael cwrs gorfodol i helpu i ddangos empathi at fyfyrwyr sydd wedi dioddef o ddysgu cyfunol.*

### **2.6. Arweinyddiaeth a rheolaeth (149 o sylwadau)**

- Un thema datblygiad proffesiynol arall a nodwyd yw hyfforddiant priodol er mwyn rhoi'r sgiliau i athrawon symud ymlaen i rolau arwain.

#### Enghreifftiau

*Hoffwn symud i fod yn arweinydd canol - cyrsiau neu ddatblygiad i helpu gyda dilyniant.*

*Mentora arweinyddiaeth - llwybrau posibl ar gyfer fy ngyrfa yn y dyfodol.*

*Hyfforddiant/Canllawiau ar sut i symud ymlaen i'r tîm Arwain.*

### **2.7. Gwellasgiliau Cymraeg (140 o sylwadau)**

- Mae awydd i athrawon ysgol naill ai ddechrau neu barhau â datblygu'r Gymraeg.

#### Enghreifftiau

*Cymraeg – Dw i eisiau datblygu fy Nghymraeg ond does dim cyfleoedd yn fy ysgol ar hyn o bryd.*

*Cymorth Cymraeg i ddatblygu fy sgiliau – byddwn wrth fy modd â chynllun a oedd yn caniatáu i athrawon Cymraeg eu hiaith sydd heb hyder yn eu sgiliau Cymraeg o ysgolion cyfrwng Saesneg gael eu secondio i ysgolion Cymraeg am dymor neu hanner tymor i'w trochi yn yr iaith a datblygu hyder. Hyd yn oed rhanriad rhan-amser yn yr ysgol Gymraeg a rhan-amser yn yr ysgol Saesneg.*

### **2.8. Rhwydweithio/cysgodi/rhannu gwybodaeth gyda chydweithwyr (93 o sylwadau)**

- Teimlai athrawon ysgol y byddai'n fuddiol i'w dysgu proffesiynol gael cyfle i rannu gwybodaeth gyda gweithwyr addysgu proffesiynol eraill;
- Byddai athrawon sy'n newydd i'r rôl hefyd yn croesawu'r profiad i arsylwi cydweithwyr uwch.

#### Enghreifftiau

*Fel athro sydd wedi cymhwyso'n ddiweddar, mae'r holl hyfforddiant ac arweiniad yn ddefnyddiol. Hoffwn yn benodol arsylwi athrawon mwy profiadol yn gweithio gyda disgyblion/dosbarthiadau heriol.*

*Cyfle i siarad ag athrawon eraill y tu allan i'r ysgol rwy'n gweithio ynddi a rhannu profiadau a syniadau.*

*Cael amser i fynd i wyllo/cwrdd ag athrawon mewn sefydliadau eraill (yn yr un maes dysgu)*

### 3. Y Cwricwlwm Newydd

#### **Themâu cyffredinol o gwestiwn testun agored y cwricwlwm.**

- Darparu mwy o ganllawiau a hyfforddiant;
- Angen mwy o amser;
- Cyfleoedd i drafod gyda chydweithwyr ac ysgolion eraill;
- Paratoi adnoddau;
- Oedi cyn gweithredu;
- Eglurhad ar asesu.

**Cyfanswm yr ymatebion: 3,346**

**Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 979**

Mewn ymateb i:

*9. Pa mor barod ydych chi i gyflwyno'r cwricwlwm newydd? (pan ddewiswyd naill ai anghytuno neu anghytuno'n gryf, gofynnwyd y cwestiwn testun agored "Beth fyddai'n eich helpu i deimlo'n fwy parod?"*

**Dadansoddiad o sylwadau ynghylch yr hyn a fyddai'n helpu'r rhai a oedd wedi cofrestru i deimlo'n fwy parod ar gyfer y cwricwlwm newydd**

#### **3.1. Darparu mwy o ganllawiau a hyfforddiant (534 o sylwadau)**

- Roedd rhai a oedd wedi cofrestru yn teimlo bod angen mwy o arweiniad a hyfforddiant. Mae rhai athrawon ysgol wedi dweud eu bod newydd gael dogfennau i'w darllen yn eu hamser eu hunain;
- Credai rhai nad oedd yr hyn a ddarparwyd yn ddigon manwl. Awgrymodd sylwadau hefyd fod gwybodaeth wedi'i throsglwyddo a bod gwybodaeth wedi'i cholli ar hyd y ffordd. Cafwyd 55 o sylwadau a gwestiynodd elfennau o'r cwricwlwm newydd neu a nododd ddiffyg eglurder.
- Ymhlith yr awgrymiadau a gafwyd gan y rhai a oedd wedi cofrestru, oedd mwy o enghreifftiau ymarferol a manylion disgwyliadau;
- Mae cred hefyd fod athrawon ysgol yn dehongli pethau'n wahanol oherwydd bod y canllawiau presennol yn amwys.
- Roedd athrawon cyflenwi hefyd yn teimlo nad oeddent wedi cael yr hyfforddiant gofynnol.

#### Enghreifftiau

*Gwell dogfennaeth, arweiniad a chefnogaeth. Mae angen geirio'r cwricwlwm newydd mewn iaith hawdd ei darllen, yn hytrach na jargon. Nid yw'r datganiad beth sy'n bwysig yn gwneud fawr o synnwyr.*

*Dim ond dogfennau rydyn ni wedi'u cael. Dim hyfforddiant penodol eto. Bydd hyn yn cymryd llawer o gydlynw ac amser. Mae'n sicr y byddai gweminarau a gynhelir yn ganolog ar gyfer pob maes pwnc yn hanfodoler mwyn sicrhau cysondeb a lledaenu arferion da ledled Cymru.*

*Enghreifftiau pendant o arfer da. Adnodd enghreifftiol i'w ddefnyddio ar y dechrau i mi wybod beth sy'n dda. Ar hyn o bryd, nid oes gennyf syniad clir ynglŷn â'r hyn yr wyf yn anelu ato ac eithrio dysgu mwy annibynnol, wedi'i ddylanwadu gan y plentyn, yn yr awyr agored.*

*Mae'r ddogfennaeth am y cwricwlwm newydd yn amwys. Mae angen ei rannu'n syml i'r hyn yr ydym yn ei wneud yn awr ac yn benodol sut y mae'n ofynnoli ni newid.*

*Deialog fwy cydlynol gan LICC ar ddisgwyliadau. Fel y mae, gadawyd pob ysgol i ddehongli pethau ei hun felly mae gwahaniaeth mawr ac nid oes neb yn gwybod beth sy'n dda ai peidio.*

### **3.2. Angen mwy o amser (375 o sylwadau)**

- Er bod ymatebwyr yn dweud yn union beth fyddai'n eu helpu i deimlo'n fwy parod (yn y crynodeb hwn), dywedodd nifer fawr o ymatebwyr fod angen mwy o amser er mwyn eu paratoi'n well ar gyfer y cwricwlwm newydd gan eu bod yn teimlo nad oeddent yn barod ar hyn o bryd;
- Roedd llawer o'r rhai a gofrestrodd yn teimlo bod pandemig COVID-19 wedi achosi i lwyth gwaith gynyddu ac felly ni fu digon o amser i baratoi'n llawn ar gyfer y cwricwlwm newydd. Awgrymwyd y dylid rhoi amser i athrawon ysgol baratoi'n llawn y tu allan i oriau addysgu.

#### Enghreifftiau

*Mwy o wybodaeth, hyfforddiant, amser i baratoi. Mae dysgu cyfunol wedi cael blaenoriaeth dros bopeth ac ni fu cyfle i ddatblygu'r cwricwlwm newydd.*

*Defnyddiwyd amser ar gyfer dysgu o bell cyfunol yn hytrach na chynllunio ar gyfer y cwricwlwm newydd. Mae angen rhoi amser.*

### **3.3. Cyfleoedd i drafod gyda chydweithwyr ac ysgolion eraill (138 o sylwadau)**

- Awgrymwyd hefyd y byddai cael mwy o gyfleoedd i drafod y cwricwlwm newydd gyda chydweithwyr ac ysgolion eraill yn helpu athrawon ysgol i baratoi'n well. Drwy rannu arfer a syniadau, byddai hyn yn datblygu dealltwriaeth o'r cwricwlwm.
- Cafwyd sylwadau hefyd ynghylch siarad â'r ysgolion peilot i glywed eu hadborth.

#### Enghreifftiau

*Mwy o hyfforddiant gyda chydweithwyr ac ysgolion sy'n fwy gwybodus ac sydd â phrofiad o baratoi a darparu.*

*Rhannu arfer da rhwng ysgolion.*

### **3.4. Paratoi adnoddau (79 o sylwadau)**

- Teimlai athrawon ysgol y byddai adnoddau ar gyfer y cwricwlwm newydd yn eu helpu i deimlo'n fwy parod.

#### Enghreifftiau

*Mwy o amser i greu, paratoi a datblygu'r adnoddau.*

*I'r cwricwlwm newydd gael ei wthio'n ôl i alluogi amser i baratoi adnoddau.*

*Rhoi bloc sylweddol o amser i greu adnoddau a diweddarau cynlluniau dysgu. NID llawer o wybodaeth a chyfarfodydd am wneud newidiadau. Nid oes dim yn cael ei wneud mewn cyfarfod. Gweithgar wch goddefol.*

*Amser i ffwrdd o'r ysgol i adolygu'r cwricwlwm ac ymgorffori neu ddiweddarau fy adnoddau gyda'r cwricwlwm newydd mewn golwg.*

### **3.5. Oedi cyn gweithredu (58 o sylwadau)**

- Er bod llawer o sylwadau'n dweud bod angen mwy o amser i gynnal tasgau i'w helpu i deimlo'n fwy parod, dywedodd nifer o ymatebwyr y gallai gohirio gweithredu'r cwricwlwm newydd roi amser priodol i athrawon ysgol ddeall a pharatoi ar gyfer y cwricwlwm newydd yn llawn;
- Yn ogystal, credai rhai fod angen oedi gan y dylai fod yn flaenoriaeth sicrhau bod dysgwyr yn dal i fyny pan fydd COVID-19 yn gostegu.

### Enghreifftiau

*Gohirio dechrau'r cwricwlwm newydd er mwyn rhoi mwy o amser i ni baratoi.*

*Gohirio'r gweithredu. Prin oedd digon o amser i gynllunio ymlaen llaw ac am y flwyddyn ddiwethaf treuliyd ein holl amser yn delio ag addasu dysgu oherwydd Covid.*

*Credaf fod angen gwthio'r cwricwlwm newydd yn ôl i 2023 er mwyn i athrawon gael amser i sicrhau bod sgiliau sylfaenol y plant yn cyrraedd safonau cyn arbrofi gyda chwricwlwm newydd. Nid yw cyfyngiadau COVID yn caniatáu i ni gael y rhyddid i blant weithio mewn grwpiau (pob bwrdd yn wynebu ymlaen). Nid yw'n caniatáu rhyddid i ddisgyblion ddefnyddio pob rhan o'r ysgol (rhaid iddynt gadw at swigod y dosbarth) ac mae athrawon wedi cael eu taflu i'r pen dwfn o ran dysgu o bell. Weithiau, gyda 48 awr o rybudd, disgwylir i ni symud o addysgu wyneb yn wyneb i ddysgu ar-lein pan nad oes gan ganran fawr o'r gweithlu addysg y sgiliau na'r wybodaeth TGCh i wneud hyn i safon dda. Nid yw athrawon wedi cael cymorth gyda'r cwricwlwm newydd. Dydw i ddim hyd yn oed wedi cael cynnig unrhyw DPP ar y cwricwlwm newydd eto! Rhowch yr ymreolaeth i athrawon gael eu disgyblion yn ôl ar y trywydd iawn (a fydd yn cymryd amser) ac yna a DIM OND yna y dylem fod yn edrych ar gyflwyno'r cwricwlwm newydd!*

### **3.6. Eglurhad ar asesu (48 o sylwadau)**

- Rhannodd llawer o athrawon ysgol eu pryderon am eu dealltwriaeth o'r broses asesu, felly byddai mwy o ganllawiau ynghylch hyn o fudd.
- Teimlai rhai fod angen egluro'r asesu yn gyntaf drwy ddechrau'r cwricwlwm newydd.

### Enghreifftiau

*Canllawiau gan y llywodraeth neu gyrff cymwysterau ar sut olwg fydd ar asesiadau ar gyfer y cwricwlwm newydd.*

*Oedi cyn gweithredu nes bod yr asesu wedi'i benderfynu o'r diwedd ac yn bendant.*

*Mwy o hyfforddiant ac arweiniad yn enwedig ar gynllun ac asesu'r cwricwlwm.*

*Ni chawsom amser o gwbl i baratoi ar gyfer hyn am ein bod yn brwydro o hyd yn erbyn materion a ddaeth i'r amlwg yn ystod y pandemig. Mae gofyn i ni gyflwyno cwricwlwm newydd, pan nad ydym hyd yn oed yn gwybod o'r naill ddiwrnod i'r llall pa arholiadau/asesiadau fydd yn digwydd ai peidio yn ystod y misoedd nesaf, neu hyd yn oed a fyddwn ni yn yr ysgol.*

*Mwy o ganllawiau gan Lywodraeth Cymru yn enwedig ar asesu. Sut y byddwn yn adrodd? Beth mae "dealltwriaeth gyffredin o asesu" yn ei olygu?*

## 4. Sylwadau Ychwanegol

### Themâu cyffredinol o'r cwestiwn testun agored terfynol

Oherwydd natur y cwestiwn, roedd yr ymatebion yn amrywio o ran hyd a phynciau. Roedd y themâu a nodwyd yn cynnwys:

- Adborth dysgu cyfunol;
- Pryderon gan athrawon cyflenwi;
- Pryderon ynghylch baich gwaith;
- COVID-19.

**Cyfanswm yr ymatebion: 3,346**

**Cyfanswm yr ymatebion testun agored: 803**

Mewn ymateb i:

*18. A oes gennyh unrhyw sylwadau ychwanegoli'w gwneud?*

### Dadansoddiad o sylwadau ynghylch unrhyw sylwadau ychwanegol

#### 4.1. Dysgu cyfunol

Nododd y rhai a oedd wedi cofrestru eu profiadau o ddysgu cyfunol/digidol. Roedd y sylwadau'n cyfeirio mwy at y ffaith nad yw dysgu cyfunol yn cymryd lle dysgu wyneb yn wyneb oherwydd amrywiaeth o resymau, ond roedd rhai'n gadarnhaol ac yn datgan bod lle i ddysgu cyfunol/digidol pan fydd pandemig COVID-19 yn gostegu. At hynny, cafwyd sylwadau ynglŷn â'r dechnoleg gan ddweud nad oedd weithiau i'r safon ofynnol ac, ar adegau, bu'n rhaid i'r rhai a oedd wedi cofrestru gyflenwi'r offer addas iddynt eu hunain.

#### 4.2. Pryderon gan athrawon cyflenwi

Cafwyd sylwadau gan athrawon cyflenwi a oedd yn teimlo na chawsant eu gwerthfawrogi'n ddigonol yn ystod pandemig COVID-19. Yn ogystal, mae rhai wedi cael trafferth yn dod o hyd i waith yn ystod y pandemig. Cafwyd awgrymiadau hefyd y dylai staff cyflenwi gael eu cyflogi drwy awdurdodau lleol yn hytrach nag asiantaethau. Soniwyd hefyd am y diffyg cymorth ar ffyrlo i rai.

#### 4.3. Baich gwaith

Codwyd pryderon yn yr adran sylwadau ychwanegol ynghylch baich gwaith. Roedd y rhai sydd wedi cofrestru yn teimlo bod y baich gwaith wedi cynyddu ers pandemig COVID-19. Cafwyd nifer o sylwadau a oedd yn dweud eu bod yn ystyried gadael y proffesiwn oherwydd problemau baich gwaith. At hynny, soniodd rhai am faterion iechyd hefyd oherwydd baich gwaith anhylaw.

#### 4.4. COVID-19

Roedd rhai athrawon ysgol yn teimlo y gallai eu diogelwch fod mewn perygl pan fydd addysgu wyneb yn wyneb yn aildddechrau. Mynegwyd pryderon am nad oedd athrawon ysgol yn cael blaenoriaeth o ran y brechlyn. O'r rhai a gododd hyn, gwnaed pryderon gan rai ynghylch risgiau posibl i aelodau o'r teulu a oedd yn y categori agored i niwed.